

# Rheoleiddio gwasanaethau talu dros y ffôn yn y dyfodol

---

Ymgynghoriad ar newidiadau i Amodau  
Cyffredinol C2.11 ac C2.12

## Ymgynghoriad

Cyhoeddwyd 25 Hydref 2024

Dyddiad cau ar gyfer derbyn ymatebion: 25 Tachwedd 2024

# Cynnwys

---

## Adran

1. Trosolwg .....	3
2. Cefndir a fframwaith cyfreithiol.....	4
3. Ymgynghoriad ar newidiadau i Amodau Cyffredinol C2.11 ac C2.12 .....	7
4. Casgliadau dros dro .....	13

## Atodiad

A1. Hysbysiad o addasiadau arfaethedig i Amod Cyffredinol C2 a diffiniadau'r Amodau Cyffredinol .....	17
A2. Ymateb i'r ymgynghoriad hwn.....	21
A3. Egwyddorion ymgynghori Ofcom .....	24
A4. Dalen gyflwyno'r ymgynghoriad .....	25
A5. Cwestiynau'r ymgynghoriad .....	26

# 1. Trosolwg

- 1.1 Mae gwasanaethau talu dros y ffôn, a elwir hefyd yn wasanaethau cyfradd premiwm (“PRS”), yn cael eu rheoleiddio ar hyn o bryd gan yr Awdurdod Gwasanaethau Talu dros y Ffôn (“y PSA”). Mae ein datganiad ar reoleiddio PRS yn y dyfodol, a gyhoeddwyd ar 25 Hydref 2024, yn nodi ein penderfyniad i drosglwyddo cyfrifoldeb rheoleiddio’r farchnad PRS o ddydd i ddydd o’r PSA i Ofcom.<sup>1</sup>
- 1.2 Fel y nodir yn ein datganiad, ar 1 Chwefror 2025, bydd Cod Ymarfer y PSA (Cod 15) sydd ar hyn o bryd yn rheoleiddio’r farchnad PRS yn cael ei ddisodli gan gyfres o ofynion newydd ar ddarparwyr PRS sydd wedi’u cynnwys mewn gorchymyn (“Gorchymyn PRS”).
- 1.3 Mae’r Amodau Hawliau Cyffredinol (“Amodau Cyffredinol”) presennol yn cynnwys sawl cyfeiriad at y PSA a’i God Ymarfer na fydd yn briodol ar ôl 1 Chwefror 2025 pan fydd y PSA yn rhoi’r gorau i fod yn rheoleiddiwr PRS.
- 1.4 Yn yr ymgynghoriad hwn, rydym yn nodi ein cynigion i addasu’r Amodau Cyffredinol i ddileu cyfeiriadau at y PSA a’i God Ymarfer fel bod yr Amodau Cyffredinol yn cyd-fynd â’r fframwaith rheoleiddio ar gyfer PRS yn y dyfodol.

## Beth rydym yn ei gynnig – yn gryno

O 1 Chwefror 2025 ymlaen, rydym yn cynnig bod Amodau Cyffredinol C2.11 ac C2.12 yn cael eu haddasu i ddileu cyfeiriadau at y PSA a’i God Ymddygiad a bod cyfeiriadau at Ofcom a Gorchymyn PRS yn cael eu defnyddio yn eu lle.

Bydd ein diwygiadau arfaethedig yn sicrhau bod darparwyr yn rhoi gwybodaeth benodol i ddefnyddwyr ar gais am wasanaethau cyfradd premiwm. Yn benodol, byddai’n rhaid i ddarparwyr roi gwybodaeth i ddefnyddwyr am y canlynol:

- sut gallant gael gfael ar wybodaeth am rifau PRS sydd ar eu biliau, gan gynnwys lleoliad unrhyw gyfleusterau gwirio rhifau;
- rôl darparwyr o ran delio â chwynion am ddiffyg cydymffurfio â’r Gorchymyn PRS; a
- rôl a chylch gwaith Ofcom fel rheoleiddiwr PRS wrth ddelio â chwynion a sut mae cwyno wrth Ofcom am PRS.

Credwn y bydd ein newidiadau arfaethedig yn golygu y bydd defnyddwyr yn parhau i gael gwybodaeth sy’n cyfateb i’r wybodaeth a roddir iddynt ar hyn o bryd. Pan fydd gwybodaeth o’r fath yn ymwneud â’r PSA a’i swyddogaethau rheoleiddio ar hyn o bryd, bydd yr wybodaeth yn ymwneud ag Ofcom a’i swyddogaethau rheoleiddio mewn perthynas â PRS o 1 Chwefror 2025 ymlaen.

- 1.5 Y dyddiad cau ar gyfer ymateb yw 25 Tachwedd 2024.

---

<sup>1</sup> [Ofcom, Rheoleiddio gwasanaethau talu dros y ffôn yn y dyfodol - Datganiad ar Orchymyn Ofcom o dan adran 122 o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003 a newidiadau i Amod y Gwasanaethau Cyfradd Premiwm, 25 Hydref 2024](#)

## 2. Cefndir a fframwaith cyfreithiol

### Trosglwyddo'r cyfrifoldeb am PRS o'r PSA i Ofcom

---

- 2.1 Gall pobl gael gafael ar amrywiaeth o wasanaethau rhyngweithiol drwy eu ffonau llinell dir a symudol, cyfrifiaduron a setiau teledu digidol. Pan godir am y gwasanaethau hyn drwy fil ffôn y cwsmer, fe'u gelwir yn wasanaethau talu dros y ffôn. Mae enghreifftiau'n cynnwys rhoddion i elusennau drwy negeseuon testun, ffrydio cerddoriaeth, cystadlaethau teledu a radio, ymholiadau rhifau ffôn, pleidleisio ar sioeau talent ar y teledu a phrynu mewn apiau. Cyfeirir at y gwasanaethau hyn fel arfer hefyd fel gwasanaethau cyfradd premiwm ("PRS").
- 2.2 Ar 1 Chwefror 2025, bydd Ofcom yn ysgwyddo'r cyfrifoldeb o ddydd i ddydd fel rheoleiddiwr ac unig orfodwr rheoliadau PRS, gan gymryd yr awenau gan y PSA. Mae ein datganiad a gyhoeddwyd ar 25 Hydref 2024 ['Rheoleiddio gwasanaethau talu dros y ffôn yn y dyfodol - Datganiad ar Orchymyn Ofcom o dan adran 122 o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003 a newidiadau i Amod y Gwasanaethau Cyfradd Premiwm'](#) (y "Datganiad PRS") yn nodi ein hasesiad a'n penderfyniadau terfynol ar sut rydym yn bwriadu trosglwyddo'r gwaith o reoleiddio PRS o'r PSA i Ofcom.
- 2.3 Fel y nodir yn y Datganiad PRS, ar 1 Chwefror 2025 bydd Ofcom yn:
- tynnu'r gymeradwyaeth yn ôl ar gyfer Cod Ymarfer y PSA (Cod 15) sydd ar hyn o bryd yn rheoleiddio'r farchnad PRS; a
  - ysgwyddo'r cyfrifoldeb o reoleiddio'r PRS o ddydd i ddydd o dan delerau'r gorchymyn ("y Gorchymyn PRS") a wnaed o dan a122 o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003 ("y Ddeddf") sy'n cynnwys cyfres newydd o ofynion ar ddarparwyr PRS.<sup>2</sup>

### Cyfeiriadau at y PSA yn yr Amodau Cyffredinol

---

- 2.4 Mae'r Amodau Hawliau Cyffredinol presennol<sup>3</sup> ("yr Amodau Cyffredinol") yn cynnwys sawl cyfeiriad at y PSA yn Amodau Cyffredinol C2.11 ac C2.12. Pan fydd y PSA yn rhoi'r gorau i fod yn rheoleiddiwr PRS ar 1 Chwefror 2025, ni fydd cyfeiriadau at y PSA yn yr Amodau Cyffredinol yn briodol mwyach.
- 2.5 Nod Amod Cyffredinol C2, yn gyffredinol, yw sicrhau bod gwybodaeth ddigonol, gyfredol y gellir ei chymharu ar gael i ddefnyddwyr am brisiau, tariffau, a thelerau ac amodau gwasanaethau cyfathrebiadau.
- 2.6 Mae Amodau Cyffredinol C2.11 ac C2.12, yn benodol, yn ceisio sicrhau bod darparwyr yn rhoi gwybodaeth benodol i ddefnyddwyr ar gais am wasanaethau cyfradd premiwm. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth mewn perthynas â'r canlynol:
- ceisiadau am wiriadau rhif drwy gyfleuster gwirio rhifau'r PSA ar ei wefan ("Gwiriwr Gwasanaeth")
  - chwynion ffurfiol, gan gynnwys mewn perthynas â diffyg cydymffurfio â Chod Ymarfer y PSA a rôl a chylch gwaith y PSA wrth ddelio â chwynion.

---

<sup>2</sup>Byddwn hefyd yn gwneud diwygiadau canlyniadol i'r Amod PRS a nodir o dan Adran 120 a fydd yn ei gwneud yn ofynnol i bob darparwr PRS (fel y'i diffinnir yn y Gorchymyn PRS) gydymffurfio â'r Gorchymyn PRS.

<sup>3</sup>Ofcom, [Amodau Hawliau Cyffredinol – Fersiwn Cyfun Answyddogol](#) (Fersiwn sydd mewn grym o: 1 Hydref 2024)

## Pwrpas yr ymgynghoriad hwn

---

- 2.7 O ystyried y bydd y PSA yn rhoi'r gorau i fod yn rheoleiddiwr PRS ar 1 Chwefror 2025, nod yr ymgynghoriad hwn yw mynd i'r afael â'r cyfeiriadau at y PSA yn Amodau Cyffredinol C2.11 ac C2.12 o'r dyddiad hwnnw ymlaen.
- 2.8 Mae'n nodi ein cynigion i addasu'r Amodau Cyffredinol i adlewyrchu'r broses o drosglwyddo swyddogaethau rheoleiddio wrth i Ofcom ysgwyddo'r cyfrifoldeb am reoleiddio PRS fel y nodir yn y Datganiad PRS.

## Y fframwaith cyfreithiol

---

- 2.9 Nodwn isod ein pwerau a'n dyletswyddau sy'n berthnasol i'r cynigion a nodir yn yr ymgynghoriad hwn.

## Dyletswyddau cyffredinol

- 2.10 Wrth lunio'r cynigion yn yr ymgynghoriad hwn, rydym wedi ystyried ein dyletswyddau cyffredinol gan gynnwys ein prif ddyletswydd o dan adran 3(1) o'r Ddeddf i hyrwyddo buddiannau dinasyddion mewn perthynas â materion cyfathrebu; a defnyddwyr mewn marchnadoedd perthnasol, lle bo hynny'n briodol drwy hybu cystadleuaeth.<sup>4</sup>
- 2.11 Wrth gyflawni ein dyletswyddau, mae'n rhaid i ni ystyried yr egwyddorion sy'n datgan y dylai gweithgareddau rheoleiddio fod yn dryloyw, yn atebol, yn gymesur, yn gyson ac wedi'u targedu dim ond at achosion lle mae angen cymryd camau, yn ogystal ag unrhyw egwyddorion eraill sy'n ymddangos i ni fel eu bod yn cynrychioli'r ymarfer rheoleiddio gorau (adran 3(3) o'r Ddeddf).
- 2.12 Mae adran 3(4) o'r Ddeddf hefyd yn nodi bod yn rhaid i ni ystyried, wrth gyflawni ein dyletswyddau, nifer o faterion, sy'n ymddangos i ni'n berthnasol o dan yr amgylchiadau, gan gynnwys: pa mor ddymunol yw hybu cystadleuaeth mewn marchnadoedd perthnasol; pa mor ddymunol yw annog buddsoddiad ac arloesedd mewn marchnadoedd perthnasol; anghenion pobl ag anableddau, yr henoed a'r rheini sydd ar incwm isel; pa mor ddymunol yw atal troseddu ac anhrefn; barn defnyddwyr mewn marchnadoedd perthnasol ac aelodau o'r cyhoedd yn gyffredinol; gwahanol fuddiannau pobl mewn gwahanol rannau o'r Deyrnas Unedig, y gwahanol gymunedau ethnig yn y Deyrnas Unedig a phobl sy'n byw mewn ardaloedd gwledig a threfol.
- 2.13 Ar ben hynny, mae adran 3(5) o'r Ddeddf yn mynnu, wrth gyflawni ein dyletswydd i hyrwyddo buddiannau defnyddwyr, fod yn rhaid i ni ystyried, yn benodol, fuddiannau'r defnyddwyr hynny o ran dewis, pris, ansawdd gwasanaeth a gwerth am arian.

## Datganiad Blaenoriaethau Strategol Llywodraeth y DU

- 2.14 Fel sy'n ofynnol o dan adran 2B(2)(a) o'r Ddeddf, rydym ni hefyd wedi ystyried [Datganiad Blaenoriaethau Strategol](#) ("SSP") Llywodraeth y DU ar gyfer telegyfathrebiadau, rheoli sbectrwm radio a gwasanaethau post. Mae'r SSP yn nodi y dylai blaenoriaethau strategol y Llywodraeth ar gyfer defnyddwyr telegyfathrebiadau nawr ac yn y dyfodol gynnwys:
- a) mynd i'r afael ag arferion niweidiol yn y diwydiant a gwella'r cymorth sydd ar gael i ddefnyddwyr agored i niwed, sy'n gallu talu mwy nag eraill.

---

<sup>4</sup>Mae 'defnyddiwr' yn cael ei ddiffinio yn adran 405(5) o'r Ddeddf ac mae'n cynnwys pobl sy'n gweithredu yn eu capasiti personol neu at ddibenion busnes neu mewn cysylltiad â busnes.

b) mynd i'r afael â'r anawsterau y mae cwsmeriaid yn eu hwynebu wrth lywio drwy'r farchnad gyfathrebu drwy roi'r data, yr wybodaeth a'r gefnogaeth briodol iddynt i hybu eu hymgysylltiad.

2.15 Mae'r SSP hefyd yn datgan y dylai Ofcom barhau i fanteisio ar bob cyfle i wella profiad defnyddwyr yn y sector telegyfathrebiadau, yn enwedig ar gyfer defnyddwyr agored i niwed, gan gynnwys y rheini sydd ag anabledau.

## **Pwerau a dyletswyddau mewn perthynas ag amodau cyffredinol**

- 2.16 Yn benodol, mae Adran 45 o'r Ddeddf yn datgan y caiff Ofcom osod amodau cyffredinol sy'n cynnwys darpariaethau wedi'u hawdurdodi neu eu mynnu gan un neu fwy o adrannau 51, 52, 57, 58 neu 64. Mae adran 46 o'r Ddeddf yn ei gwneud yn glir y gall amodau o'r fath fod yn gymwys yn gyffredinol naill ai (a) i bob person sy'n darparu rhwydwaith cyfathrebiadau electronig neu wasanaeth cyfathrebiadau electronig; neu (b) i bob person sy'n darparu rhwydwaith neu wasanaeth o'r fath a ddisgrifir yn benodol yn yr amod.
- 2.17 O dan adran 51(1)(a), mae'n bosibl y byddwn yn gosod amodau cyffredinol gan wneud y cyfryw ddarpariaethau ag sy'n briodol, yn ein barn ni, er mwyn diogelu buddiannau defnyddwyr gwasanaethau cyfathrebiadau electronig cyhoeddus. Mae adran 51(2) yn cynnwys rhestr heb fod yn gynhwysfawr o'r mathau penodol o amodau cyffredinol y gallwn eu gosod yn unol â'r diben hwn. Mae hyn yn cynnwys adran 51(2)(d), sy'n rhoi pŵer i Ofcom osod amodau sy'n mynnu bod gwybodaeth benodol, neu wybodaeth o fath penodol, yn cael ei rhoi am ddim i ddefnyddwyr.
- 2.18 Mae adran 47(2) o'r Ddeddf yn llywodraethu o dan ba amgylchiadau y gallwn osod neu addasu amod cyffredinol. Mae'n datgan bod modd gwneud neu addasu amod o'r fath os nad yw'n gwahaniaethu'n ormodol yn erbyn pobl benodol neu yn erbyn disgrifiad penodol o bobl, mewn modd cymesur i'r hyn y mae'r amod neu'r addasiad yn bwriadu ei gyflawni, ac yn dryloyw o ran yr hyn y mae'n bwriadu ei gyflawni.<sup>5</sup>
- 2.19 Mae Adran 4(2) o'r Ddeddf yn mynnu bod Ofcom yn gweithredu yn unol â chwe gofyniad a ddisgrifir wrth gyflawni swyddogaethau penodol, gan gynnwys y rheini sy'n ymwneud â gosod neu addasu amodau cyffredinol fel y nodir uchod. Mae'r gofynion hyn yn cynnwys a) hybu cystadleuaeth wrth ddarparu gwasanaethau cyfathrebiadau electronig; b) hyrwyddo buddiannau holl aelodau'r cyhoedd yn y Deyrnas Unedig; ac c) hyrwyddo cysylltedd a mynediad at rwydweithiau capasiti uchel iawn gan aelodau o'r cyhoedd a busnesau yn y Deyrnas Unedig.

---

<sup>5</sup>Mae adran 47(3) yn datgan nad yw gosod amod cyffredinol yn amodol ar allu bod yn wrthrychol gyfiawnadwy, er ein bod yn ystyried hyn mewn unrhyw achos. Gweler adran 4.

# 3. Ymgynghoriad ar newidiadau i Amodau Cyffredinol C2.11 ac C2.12

- 3.1 Yn yr adran hon, rydym yn gyntaf yn nodi ein dull gweithredu cyffredinol arfaethedig ar gyfer y diwygiadau i'r Amodau Cyffredinol. Rydym wedyn yn nodi ein cynigion penodol mewn perthynas â'r ddau faes lle mae Amodau Cyffredinol C2.11 ac C2.12 yn cyfeirio at y PSA o ran ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr roi gwybodaeth i ddefnyddwyr:
- a) ceisiadau am wiriadau rhif drwy gyfleuster gwirio rhifau'r PSA ar ei wefan ("Gwiriwr Gwasanaeth")
  - b) cwynion ffurfiol, gan gynnwys mewn perthynas â diffyg cydymffurfio â Chod Ymarfer y PSA a rôl a chylch gwaith y PSA wrth ddelio â chwynion.

## Dull gweithredu arfaethedig

---

### Angen diwygio'r Amodau Cyffredinol

- 3.2 Ar 1 Chwefror 2025, bydd y PSA yn rhoi'r gorau i fod yn rheoleiddiwr PRS. O'r dyddiad hwnnw ymlaen, ni fydd cyfeiriadau at y PSA yn Amod Cyffredinol C2 yn gosod gofynion ar ddarparwyr i roi gwybodaeth am y PSA, ac mewn perthynas ag ef, yn briodol mwyach.
- 3.3 Mae'r Amodau Cyffredinol yn diffinio'r PSA fel a ganlyn:
- Mae '**Awdurdod Gwasanaethau Talu dros y Ffôn**' yn golygu rheoleiddiwr y DU sy'n gyfrifol am gynnwys, nwyddau a gwasanaethau a godir ar fil ffôn.
- 3.4 O 1 Chwefror 2025 ymlaen, Ofcom fydd rheoleiddiwr y DU a fydd yn gyfrifol am gynnwys, nwyddau a gwasanaethau a godir ar fil ffôn. O ganlyniad, o 1 Chwefror 2025 ymlaen, gellid darllen y gofyniad i roi gwybodaeth am y PSA, ac mewn perthynas ag ef, fel gofyniad i roi gwybodaeth am Ofcom ac mewn perthynas ag Ofcom.
- 3.5 Fodd bynnag, heb ei newid, byddai'r Amodau Cyffredinol yn dal i enwi'r PSA yn uniongyrchol ac yn cyfeirio at gyfleusterau ar wefan y PSA. Gallai hyn arwain at ddryswch ymysg darparwyr o ran eu rhwymedigaethau o dan yr Amodau Cyffredinol a byddai'n golygu y byddai'r Amodau Cyffredinol yn cynnwys cyfeiriad diangen o gymhleth at Ofcom fel y rheoleiddiwr PRS.
- 3.6 Am y rhesymau hyn, rydym o'r farn bod angen diwygio'r Amodau Cyffredinol i ddileu cyfeiriadau at y PSA ac i sicrhau bod yr Amodau Cyffredinol yn cyd-fynd â'r fframwaith rheoleiddio a fydd ar waith o 1 Chwefror 2025 ymlaen.
- 3.7 Credwn y dylai unrhyw ddiwygiadau i'r Amodau Cyffredinol sicrhau bod defnyddwyr yn cael gwybodaeth sy'n cyfateb yn fras i'r wybodaeth a roddir iddynt ar hyn o bryd. Mae'n ymddangos bod gofynion gwybodaeth yr Amodau Cyffredinol presennol mewn perthynas â'r PSA yn gweithio'n dda ac nid oes gennym dystiolaeth o broblemau yng nghyswllt hyn. Felly, credwn fod cyfres o welliannau wedi'u targedu a fydd dim ond yn newid y cyfeiriadau at y PSA yn briodol. Byddai hyn hefyd yn cyd-fynd â'n dull cyffredinol o drosglwyddo swyddogaethau rheoleiddio yn

gyffredinol, sef cadw'r mesurau diogelu defnyddwyr sydd wedi esblygu dros nifer o flynyddoedd i raddau helaeth.<sup>6</sup>

## Amcanion Polisi

- 3.8 O ystyried y drafodaeth uchod a'r ffaith bod angen diwygio'r Amodau Cyffredinol, ein hamcanion wrth addasu'r Amodau Cyffredinol yw:
- dileu cyfeiriadau at y PSA i sicrhau bod darparwyr yn cael eglurder ynghylch eu rhwymedigaethau o dan yr Amodau Cyffredinol o 1 Chwefror 2025; a
  - sicrhau y bydd defnyddwyr yn cael gwybodaeth ar ôl 1 Chwefror 2025 sy'n cyfateb i raddau helaeth i'r wybodaeth a roddir iddynt ar hyn o bryd.

## Gwiriwr Gwasanaeth

---

### Sut mae'r PSA yn gweithredu ar hyn o bryd

- 3.9 Ar hyn o bryd mae'r PSA yn gweithredu cyfleuster gwirio rhifau o'r enw 'Gwiriwr Gwasanaeth' sydd ar gael ar ei wefan.<sup>7</sup>
- 3.10 Mae Gwiriwr Gwasanaeth y PSA yn chwarae rhan bwysig o ran sicrhau bod defnyddwyr yn cael gwybodaeth berthnasol am y PRS. Mae'r gwiriwr gwasanaeth presennol, sy'n cynnwys yr wybodaeth ddiweddaraf a roddir yn uniongyrchol gan ddarparwyr PRS, yn galluogi unrhyw un i roi rhif PRS ar wefan y PSA ac i gael gwybodaeth am y rhif hwnnw, fel rhif ffôn priodol i'w ffonio gydag ymholiad (rhif ffôn gwasanaeth i gwsmeriaid).
- 3.11 Byddwn yn cadw swyddogaeth debyg fel rhan o'n gwaith rheoleiddio'r PRS a bydd defnyddwyr yn gallu cael gafael ar wybodaeth berthnasol am y PRS ar wefan Ofcom.<sup>8</sup>

### Yr Amodau Cyffredinol presennol

- 3.12 Mae Amod Cyffredinol C2.11(b)(i) yn mynnu bod darparwyr yn rhoi gwybodaeth ar gais, yn rhad ac am ddim, am eu rôl mewn perthynas ag ymholiadau am CPRS a gwiriadau rhif drwy'r cyfleusterau gwirio rhifau a ddarperir gan y PSA ar ei wefan.
- 3.13 Mae'r gofyniad yn berthnasol i ddarparwyr Rhwydweithiau Cyfathrebiadau Electronig Cyhoeddus a/neu Wasanaethau Cyfathrebiadau Electronig Cyhoeddus.

### Ein cynigion

- 3.14 Rydym yn cynnig y bydd Amod Cyffredinol C2.11(b)(i) yn parhau i fynnu bod darparwyr yn rhoi gwybodaeth am eu rôl mewn perthynas ag ymholiadau cyffredinol, ond bod y cyfeiriadau at wirio rhifau a gwefan y PSA yn cael eu dileu o Amod Cyffredinol C2.11.
- 3.15 Rydym yn cynnig ychwanegu gofyniad at Amod Cyffredinol C2.12 ei bod yn rhaid i ddarparwyr, wrth roi gwybodaeth yn unol ag Amod Cyffredinol C2.11, roi gwybodaeth am sut gall defnyddwyr gael gafael ar wybodaeth am rifau PRS sydd ar eu biliau, gan gynnwys lleoliad

---

<sup>6</sup>Gweler 13.6 y Datganiad PRS.

<sup>7</sup> Gweler y [Gwiriwr Gwasanaeth](#) ar wefan y PSA

<sup>8</sup>Gweler paragraff 13.91 y Datganiad PRS



unrhyw gyfleusterau gwirio rhifau. Rydym yn cynnig y bydd biliau a rhifau PRS yn cael eu diffinio yn yr un ffordd ag y cânt eu diffinio yng ngweddill C2.12.

- 3.16 Ar hyn o bryd, nid yw'n glir beth fydd ffurf cyfleuster gwirio rhifau Ofcom, lle y bydd yn cael ei leoli a pha newidiadau y gellir eu gwneud i'w ffurf a'i leoliad yn y dyfodol. Mae'n bosibl hefyd y bydd sefydliadau eraill yn datblygu cyfleusterau o'r fath. Felly, mae ein cynnig yn ceisio sicrhau bod darparwyr yn rhoi gwybodaeth berthnasol a chyfredol i ddefnyddwyr ynghylch sut gallant ddod o hyd i wybodaeth am y rhifau sydd ar eu biliau. Byddai hyn yn cynnwys cyfeirio defnyddwyr at gyfleusterau gwirio rhifau lle bynnag y maent ar gael.
- 3.17 Rydym o'r farn y bydd ein cynnig, i bob pwrpas, yn sicrhau bod defnyddwyr yn cael gwybodaeth sy'n cyfateb i'r wybodaeth sy'n cael ei rhoi iddynt ar hyn o bryd. Credwn y byddai'r gofyniad arfaethedig yn sicrhau bod defnyddwyr yn gwybod bod modd cael gafael ar yr wybodaeth ddiweddaraf am y PRS lle bo hynny'n bosibl.
- 3.18 Credwn mai effaith fach iawn y bydd y newidiadau arfaethedig hyn yn ei chael ar ddefnyddwyr a darparwyr rheoleiddiedig. Bydd defnyddwyr yn cael gwybodaeth debyg i'r wybodaeth a gânt ar hyn o bryd. Bydd gofyn i ddarparwyr roi gwybodaeth o natur a ffurf debyg i'r hyn y maent yn ei roi ar hyn o bryd. Y gwahaniaeth allweddol i ddefnyddwyr a darparwyr o'i gymharu â nawr, yn ein barn ni, fyddai lleoliad unrhyw gyfleuster gwirio rhifau y cyfeirir ato.
- 3.19 Tynnir sylw isod at y newidiadau arfaethedig i C2.11(b)(i). Bydd y testun sydd â llinell drwyddo yn cael ei ddileu.

#### C2.11

Mewn perthynas â **Gwasanaethau Cyfradd Premiwm a Reolir ('CPRS')**, bydd **Darparwyr Rheoleiddiedig** yn rhoi'r wybodaeth a'r cyngor canlynol ar gais ac yn rhad ac am ddim i **Ddefnyddwyr, Cwsmeriaid Microfusnesau neu Fusnesau Bach neu Gwsmeriaid Dim-Er-Elw:**

[...]

(b) gwybodaeth am rôl **Darparwyr Rheoleiddiedig** mewn perthynas â'r canlynol:

- (i) ymholiadau cyffredinol am **CPRS a cheisiadau am wiriadau rhif drwy'r cyfleusterau gwirio rhifau a ddarperir gan yr Awdurdod Gwasanaethau Talu dros y Ffôn** ar ei wefan;<sup>11</sup> a

[...]

<sup>11</sup> Gweler gwefan yr Awdurdod Gwasanaethau Talu dros y Ffôn

- 3.20 Mae'r newid arfaethedig i C2.12 wedi'i amlgu isod. Bydd y testun sydd wedi'i danlinellu yn cael ei ychwanegu.

#### C2.12

Wrth roi gwybodaeth a chyngor yn unol ag **Amod** C2.11, bydd **Darparwyr Rheoleiddiedig** yn rhoi:

[...]

- (i) gwybodaeth am sut gall **Defnyddwyr** gael gafael ar wybodaeth am rifau **CPRS** sydd ar eu **Biliau**, gan gynnwys lleoliad unrhyw gyfleusterau gwirio rhifau.

- 3.21 Dyma'r diffiniadau perthnasol o'r Amodau Cyffredinol, a fydd yn aros yr un fath:

Mae ‘**Bil**’ yn golygu’r wybodaeth a roddir, neu a ddarperir, gan **Ddarparwr Cyfathrebiadau i Ddefnyddiwr** am y ffioedd a godwyd ac sy’n ddyledus i’w talu neu’r debydau a’r credydau a roddwyd ar gyfrif **Defnyddiwr**;

Mae i ‘**Gwasanaeth Cyfradd Premiwm a Reolir**’ neu ‘**CPRS**’ yr ystyr a nodir yn amod 26 a gyhoeddwyd gan **Ofcom** o dan adran 120 o’r **Ddeddf**;

## Cwynion

### Sut mae’r PSA yn gweithredu ar hyn o bryd

- 3.22 Ar hyn o bryd mae’r PSA yn rheoleiddio’r farchnad PRS drwy God Ymarfer (Cod 15). Mae’r Cod Ymarfer yn nodi’r safonau a’r gofynion y mae’n rhaid i ddarparwyr PRS gydymffurfio â nhw yn ogystal â phwerau sefydliadol y PSA. Fel y nodwyd uchod ym mharagraffau 2.1-2.3, ar 1 Chwefror 2025, yn amodol ar broses seneddol, bydd Cod Ymarfer y PSA yn cael ei ddisodli gan gyfres o reolau rheoleiddio Ofcom ei hun sydd yn y Gorchymyn PRS.
- 3.23 Ar ben hynny, fel rhan o’i gylch gwaith, mae’r PSA yn delio â chwynion defnyddwyr am PRS. Mae’r PSA yn derbyn cwynion gan ddefnyddwyr am PRS drwy ei wefan, ei llinell gymorth neu’n ysgrifenedig ac mae’n defnyddio’r rhain fel sail i’w weithgareddau wrth reoleiddio’r farchnad.
- 3.24 Mae gennym broses sydd wedi hen ennill ei phlwyf ar gyfer delio â chwynion a wneir i ni am ein sectorau eraill a gaiff eu rheoleiddio. Rydym wrthi’n diweddarau ein tudalen we bwrpasol ar gyfer gwneud cwynion defnyddwyr drwy gyfeirio at y sector PRS. Rydym yn disgwyl i gwynion PRS gael eu trin yn yr un ffordd, gan gynnwys cwynion yn ysgrifenedig, ar-lein (drwy ffurflen ar-lein) neu dros y ffôn.<sup>9</sup>

### Yr Amodau Cyffredinol presennol

- 3.25 Mae Amod Cyffredinol C2.11(b)(ii) yn mynnu bod darparwyr yn rhoi gwybodaeth ar gais, yn rhad ac am ddim, am eu rôl wrth ddelio â chwynion ffurfiol am gamddefnyddio cynnwys gwasanaeth, diffyg cydymffurfio â chod ymarfer y PSA ac achosion anghyfreithlon honedig eraill o weithredu gwasanaethau a rhifau.
- 3.26 Mae Amod Cyffredinol C2.12(e) yn mynnu bod darparwyr, wrth roi gwybodaeth yn unol ag Amod Cyffredinol C2.11, yn rhoi gwybodaeth am rôl a chylch gwaith y PSA o ran delio â chwynion a sut mae cwyno’n ffurfiol wrth y PSA drwy’r wefan, y llinell gymorth neu ar bapur.
- 3.27 Mae Amod Cyffredinol C2.11(b)(ii) ac Amod Cyffredinol C2.12(e) yn berthnasol i ddarparwyr Rhwydweithiau Cyfathrebiadau Electronig Cyhoeddus a/neu Wasanaethau Cyfathrebiadau Electronig Cyhoeddus.

### Ein cynigion

- 3.28 Rydym yn cynnig cadw’r egwyddor ei bod yn ofynnol i ddarparwyr roi gwybodaeth yn rhad ac am ddim am eu rôl wrth ddelio â chwynion am ddiffyg cydymffurfio â rhwymedigaethau rheoleiddio a rhwymedigaethau cyfreithiol eraill a chamddefnyddio cynnwys gwasanaeth. Fodd bynnag, rydym yn cynnig newid y cyfeiriad yn Amod Cyffredinol C2.11(b)(ii) at yr wybodaeth honno sy’n ymwneud â delio â chwynion am ddiffyg cydymffurfio â chod ymarfer y PSA, i fod mewn

<sup>9</sup>Gweler paragraff 10.82 y Datganiad PRS

perthynas â delio â chwynion am ddiffyg cydymffurfio ag unrhyw Orchymyn a wneir gan Ofcom o dan Adran 122 o'r Ddeddf. Y gorchymyn hwn fydd y Gorchymyn PRS fel y'i disgrifir yn y Datganiad PRS (oni bai y gwneir unrhyw orchymyn newydd a hyd nes y gwneir hynny).

- 3.29 Rydym hefyd yn cynnig cadw'r egwyddor ei bod yn ofynnol i ddarparwyr roi gwybodaeth am rôl a chylch gwaith rheoleiddiwr PRS wrth delio â chwynion a sut mae cwyno wrth reoleiddiwr PRS. Fodd bynnag, o ystyried mai Ofcom fydd y rheoleiddiwr PRS, rydym yn cynnig newid y cyfeiriadau yn Amod Cyffredinol C2.12(e) at y PSA i gyfeirio at rôl Ofcom mewn perthynas â PRS. Nid ydym yn credu bod angen nodi manylion penodol y dulliau o gwyno wrth Ofcom yn yr Amodau Cyffredinol o gofio bod yn rhaid i ddarparwyr egluro sut mae cwyno wrth Ofcom. Felly, nid ydym yn cynnig nodi'r wybodaeth hon yn yr un ffordd ag y mae Amod Cyffredinol presennol C2.12(e) yn nodi'r dulliau o gwyno wrth y PSA. Fel y nodwyd uchod, rydym yn disgwyl i gwynion PRS gael eu trin yn yr un ffordd ag y cânt ar hyn o bryd, gan gynnwys cwynion ysgrifenedig, ar-lein (drwy ffurflen ar-lein) neu dros y ffôn.
- 3.30 Rydym ni o'r farn bod ein newidiadau arfaethedig yn sicrhau bod defnyddwyr yn cael gwybodaeth sy'n cyfateb i'r wybodaeth maen nhw'n ei chael ar hyn o bryd ynghylch rôl a chylch gwaith rheoleiddiwr y PRS a sut mae cwyno am achosion posibl o ddiffyg cydymffurfio â rhwymedigaethau rheoleiddio. Bydd yr wybodaeth hon yn ymwneud ag Ofcom fel y rheoleiddiwr PRS, yn hytrach na'r PSA ac mewn perthynas â'r Gorchymyn PRS yn hytrach na Chod Ymarfer y PSA.
- 3.31 Credwn mai bach iawn fydd effaith y newidiadau arfaethedig hyn ar ddefnyddwyr a darparwyr rheoleiddiedig oherwydd, fel y nodir uchod, y cyfan y byddwn yn ei wneud yw cyfeirio at Ofcom yn lle cyfeirio at y PSA a chyfeirio at Orchymyn y PRS yn lle cyfeirio at god ymarfer y PSA. Er bod Ofcom yn sefydliad gwahanol sydd â chylch gwaith ehangach na'r PSA ac efallai y bydd yn delio â chwynion yn wahanol, nid ydym yn credu bod hyn yn cynrychioli newid yn nifer na math yr wybodaeth y mae angen i ddarparwyr ei rhoi i ddefnyddwyr.
- 3.32 Tynnir sylw isod at y newidiadau arfaethedig i C2.11(b)(ii). Bydd y testun sydd â llinell drwyddo yn cael ei ddileu a bydd y testun a danlinellir yn cael ei ychwanegu.

#### C2.11

Mewn perthynas â **Gwasanaethau Cyfradd Premiwm a Reolir ('CPRS')**, bydd **Darparwyr Rheoleiddiedig** yn rhoi'r wybodaeth a'r cyngor canlynol ar gais ac yn rhad ac am ddim i **Ddefnyddwyr, Cwsmeriaid Microfusnesau neu Fusnesau Bach neu Gwsmeriaid Dim-Er-Elw**: [...]

(b) gwybodaeth am rôl **Darparwyr Rheoleiddiedig** mewn perthynas â'r canlynol:

[...]

- (ii) delio â chwynion ffurfiol am gamddefnyddio cynnwys gwasanaeth, diffyg cydymffurfio **ag unrhyw orchymyn a wneir gan Ofcom o dan Adran 122 o'r Ddeddf** â chod ymarfer yr **Awdurdod Gwasanaethau Talu dros y Ffôn** ac achosion anghyfreithlon honedig eraill o weithredu gwasanaethau a rhifau.

- 3.33 Tynnir sylw isod at y newidiadau arfaethedig i C2.12(e). Bydd y testun sydd â llinell drwyddo yn cael ei ddileu a bydd y testun a danlinellir yn cael ei ychwanegu.

#### C2.12

Wrth roi gwybodaeth a chyngor yn unol ag **Amod C2.11**, bydd **Darparwyr Rheoleiddiedig** yn rhoi:

[...]

(e) gwybodaeth am rôl a chylch gwaith **Ofcom yr Awdurdod Gwasanaethau Talu dros y Ffôn** wrth ddelio â chwynion **mewn perthynas â CPRS** a sut mae mynd ati i gwyno'n ffurfiol wrth **Ofcom yr Awdurdod Gwasanaethau Talu dros y Ffôn** drwy'r wefan, y llinell gymorth neu'n ysgrifenedig;

[...]

## Diffiniadau

3.34 Rydym yn cynnig dileu'r diffiniad o 'Awdurdod Gwasanaethau Talu dros y Ffôn', sydd wedi'i nodi ym mharagraff 3.3 uchod, o'r Amodau Cyffredinol. Ni fydd angen y diffiniad hwn mwyach o ystyried ein cynigion a drafodir uchod.

## Dyddiad gweithredu arfaethedig

3.35 Rydym yn cynnig y bydd y newidiadau hyn yn dod i rym ar 1 Chwefror 2025. Bydd hyn yn cysoni'r newidiadau i'r Amodau Cyffredinol â'r broses o drosglwyddo'r cyfrifoldeb o'r PSA i Ofcom, tynnu cymeradwyaeth yn ôl ar gyfer Cod 15 a rhoi Gorchymyn y PRS ar waith.

## Cwestiynau'r ymgynghoriad

1. Ydych chi'n cytuno bod angen diwygio'r Amodau Cyffredinol ac ydych chi'n cytuno â'n hamcan wrth wneud y diwygiadau hynny?
2. Ydych chi'n cytuno â'r addasiadau arfaethedig i Amodau Cyffredinol C2.11 ac C2.12 ac â'n cynnig i ddileu'r diffiniad o 'Awdurdod Gwasanaethau Talu dros y Ffôn' o'r Amodau Cyffredinol?

# 4. Casgliadau dros dro

## Asesu effaith cynigion

---

- 4.1 Mae Adran 7 o'r Ddeddf Cyfathrebiadau yn ei gwneud yn ofynnol i ni gynnal a chyhoeddi asesiad o effaith debygol gweithredu cynnig a fyddai'n debygol o gael effaith sylweddol ar fusnesau neu'r cyhoedd, neu pan fydd newid mawr yng ngweithgareddau Ofcom.
- 4.2 Yn fwy cyffredinol, mae asesiadau effaith yn llunio polisiâu da ac felly, rydym ni'n disgwyl eu cynnal yng nghyswllt y rhan fwyaf o'n cynigion. Rydym yn defnyddio asesiadau effaith i'n helpu i ddeall ac asesu effaith bosibl ein penderfyniadau polisi cyn i ni eu gwneud. Maent hefyd yn ein helpu i esbonio'r penderfyniadau polisi rydym wedi penderfynu eu gwneud a pham rydym yn credu mai'r penderfyniadau hynny sy'n cyflawni ein dyletswyddau a'n hamcanion perthnasol yn y ffordd sy'n tarfu leiaf. Mae ein canllawiau ar asesu effaith yn nodi ein dull gweithredu cyffredinol ar gyfer asesu a chyflwyno effaith ein penderfyniadau arfaethedig.
- 4.3 Mae'r dyletswyddau perthnasol mewn perthynas â'r cynnig dan sylw yn ein hymgyngoriad wedi'u nodi ym mharagraffau 2.10-2.19 uchod. Rydym yn disgwyl i'n cynigion gael effaith fach iawn ar ddefnyddwyr neu ddarparwyr. Credwn y bydd defnyddwyr, o dan ein cynnig, yn parhau i gael gwybodaeth debyg i'r wybodaeth a roddir iddynt gan ddarparwyr ar hyn o bryd. Byddai'r wybodaeth hon yn cyfeirio at Ofcom fel rheoleiddiwr PRS yn hytrach na'r PSA. Byddai'n dal yn ofynnol i ddarparwyr roi gwybodaeth i ddefnyddwyr sydd o natur debyg ac yn yr un ffordd ag y maent yn ei wneud ar hyn o bryd.
- 4.4 Efallai y bydd gweithredu ein diwygiadau arfaethedig yn arwain at rai costau i ddarparwyr, fel hyfforddi asiantau gwasanaethau i gwsmeriaid. Fodd bynnag, nid ydym yn credu y byddai ein cynigion yn arwain at gostau a fyddai'n anghymesur ag amcanion y polisi. Credwn fod y penderfyniad i drosglwyddo'r cyfrifoldeb am PRS o'r PSA i Ofcom, fel y cadarnhawyd yn y Datganiad PRS, wedi golygu ei bod yn angenrheidiol dileu cyfeiriadau at y PSA yn yr Amodau Cyffredinol. Mae'r diwygiadau arfaethedig yn briodol ac yn angenrheidiol, yn ein barn ni, er mwyn cyflawni ein hamcan o ddileu cyfeiriadau at y PSA o'r Amodau Cyffredinol i sicrhau eglurder i ddarparwyr ynghylch eu rhwymedigaethau o dan yr Amodau Cyffredinol o 1 Chwefror 2025 ymlaen.
- 4.5 Ar ben hynny, mae ein cynigion yn ceisio gwneud cyn lleied o newidiadau â phosibl gan sicrhau y bydd defnyddwyr yn cael gwybodaeth sy'n cyfateb i raddau helaeth i'r wybodaeth a roddir iddynt ar hyn o bryd. Nid ydym yn credu bod unrhyw agweddau ar ein cynnig nad ydynt yn angenrheidiol i gyflawni ein hamcanion.
- 4.6 Rydym o'r farn y bydd ein cynigion o fudd i ddefnyddwyr drwy sicrhau bod darparwyr yn rhoi gwybodaeth am ddim iddynt pan fyddant yn chwilio am rifau i ddod o hyd i ragor o wybodaeth am y gwasanaethau y codwyd tâl arnynt amdanynt yn ogystal â sut mae cwyno wrth Ofcom am PRS.

## Asesu'r effaith ar gydraddoldeb

---

- 4.7 Rydym ni hefyd wedi ystyried yn ofalus a fydd ein cynigion yn cael effaith benodol ar bobl sy'n rhannu nodweddion gwarchoddedig (gan gynnwys yn fras, hil, oedran, anabledd, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol, ailbennu rhywedd, beichiogrwydd a mamolaeth, priodas a phartneriaeth

sifil a chrefydd neu gred yn y DU, a hefyd dibynyddion a barn wleidyddol yng Ngogledd Iwerddon), ac yn benodol a allant wahaniaethu yn erbyn pobl o'r fath neu effeithio ar gyfle cyfartal neu gysylltiadau da. Mae'r asesiad hwn yn ein helpu i gydymffurfio â'n dyletswyddau o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 a Deddf Gogledd Iwerddon 1998.<sup>10</sup>

- 4.8 Wrth feddwl am gydraddoldeb, rydym ni'n meddwl yn fwy eang na phobl sy'n rhannu nodweddion gwarchoddedig a nodir mewn deddfwriaeth cydraddoldeb, ac yn meddwl am yr effeithiau posibl ar wahanol grwpiau o bobl (gweler paragraff 4.7 yn ein [canllawiau ar asesu effaith](#)).
- 4.9 Yn benodol, mae adran 3(4) o'r Ddeddf Cyfathrebiadau yn mynnu hefyd ein bod yn rhoi sylw i anghenion a buddiannau grwpiau penodol o bobl wrth gyflawni ein dyletswyddau, fel y bo'n berthnasol yn yr amgylchiadau yn ein tyb ni. Mae'r rhain yn cynnwys:
- natur fregus plant ac eraill y mae eu hamgylchiadau, yn ein barn ni, yn golygu bod angen gwarchodaeth arbennig arnynt;
  - anghenion pobl anabl, pobl hŷn a phobl sydd ar incwm isel; ac
  - gwahanol fuddiannau pobl mewn gwahanol rannau o'r DU, y gwahanol gymunedau ethnig yn y DU a phobl sy'n byw mewn ardaloedd gwledig a threfol.
- 4.10 Rydym ni'n edrych ar yr effaith y mae ein polisi'n debygol o'i chael ar bobl, yn dibynnu ar eu hamgylchiadau personol. Mae hyn hefyd yn ein helpu i wneud yn siŵr ein bod yn cyflawni ein prif ddyletswydd o hybu buddiannau dinasyddion a defnyddwyr, waeth beth fo'u cefndir a'u hunaniaeth.
- 4.11 Nid ydym yn credu y bydd ein cynigion yn effeithio ar unrhyw grwpiau penodol o bobl (gan gynnwys pobl sy'n rhannu nodweddion gwarchoddedig o dan Ddeddf 2010 neu Ddeddf 1998) yn wahanol i'r boblogaeth gyffredinol.
- 4.12 Fel y nodwyd uchod ym mharagraffau 4.3-4.5, rydym yn disgwyl i'n cynigion gael cyn lleied o effaith â phosibl ar ddefnyddwyr yn gyffredinol. O dan ein cynigion, credwn y bydd defnyddwyr yn parhau i gael gwybodaeth debyg i'r wybodaeth y maent yn ei chael gan ddarparwyr ar hyn o bryd. Gan ein bod o'r farn nad yw ein cynigion yn cynrychioli newid sylweddol o safbwynt y defnyddiwr, rydym hefyd o'r farn na fyddai'r newidiadau rydym yn eu cynnig yn effeithio ar unrhyw un grŵp o bobl yn wahanol i unrhyw un arall.

## Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg

---

- 4.13 Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn gwneud y Gymraeg yn iaith sy'n cael ei chydabod yn swyddogol yng Nghymru. Arweiniodd y ddeddfwriaeth hon hefyd at sefydlu swyddfa Comisiynydd y Gymraeg, sy'n rheoleiddio ac yn monitro ein gwaith. Mae'n rhaid i Ofcom ystyried y Gymraeg wrth lunio, adolygu neu ddiwygio polisiâu sy'n berthnasol i Gymru (gan gynnwys cynigion nad ydynt wedi'u targedu at Gymru'n benodol ond sydd o ddiddordeb ledled y DU).
- 4.14 Os yw Safonau'r Gymraeg yn berthnasol, rydym ni'n ystyried effaith bosibl cynnig polisi ar (i) y cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg; a (ii) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Rydym ni hefyd yn ystyried sut byddai modd llunio cynnig er mwyn iddo gael neu gynyddu'r effeithiau cadarnhaol, neu leihau'r effeithiau niweidiol neu beidio â chael unrhyw effaith niweidiol.

---

<sup>10</sup> Mae rhagor o fanylion yn adran 149 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 ac adran 75 o Ddeddf Gogledd Iwerddon 1998.

- 4.15 Fel y nodwyd uchod, credwn y bydd defnyddwyr, o dan ein cynigion, yn parhau i gael gwybodaeth debyg i'r wybodaeth y maent yn ei chael gan ddarparwyr ar hyn o bryd. Felly, rydym o'r farn na fydd unrhyw effaith o'n cynigion ar y cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg. Nid ydym 'chwaith yn credu y bydd ein cynnig yn arwain at drin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. I'r graddau y gall pobl ddefnyddio'r Gymraeg ar hyn o bryd wrth ryngweithio â darparwyr, byddant yn parhau i allu gwneud hynny o dan ein cynigion.

## Profion cyfreithiol

- 4.16 Credwn fod yr addasiadau rydym yn cynnig eu gwneud i Amod Cyffredinol C2.11 ac Amod Cyffredinol C2.12 yn bodloni'r prawf ar gyfer gosod neu addasu amodau a nodir yn adran 47(2) o'r Ddeddf oherwydd:
- a) **nid ydynt yn gwahaniaethu'n ormodol** oherwydd byddant yn berthnasol i bob darparwr Rhwydweithiau Cyfathrebiadau Electronig Cyhoeddus a/neu Wasanaethau Cyfathrebiadau Electronig Cyhoeddus a byddant o fudd i bob defnyddiwr yn yr un modd.
  - b) **maen nhw'n gymesur** gan nad ydynt yn mynd ymhellach na'r hyn sy'n angenrheidiol i gyflawni ein hamcanion sef: dileu cyfeiriadau at y PSA i sicrhau bod darparwyr yn gwybod yn union beth yw eu rhwymedigaethau o dan yr Amodau Cyffredinol o 1 Chwefror 2025 ymlaen; ac, yn y dyfodol, sicrhau y bydd defnyddwyr yn cael gwybodaeth sy'n cyfateb i raddau helaeth i'r wybodaeth a roddir iddynt ar hyn o bryd. Er ei bod yn bosibl y bydd rhai costau i ddarparwyr sy'n gysylltiedig â rhoi ein cynigion ar waith, rydym wedi ceisio lleihau'r costau hyn drwy gynnig gwneud cyn lleied o newidiadau â phosibl i'r Amodau Cyffredinol a sicrhau bod defnyddwyr yn gallu cael gafael ar wybodaeth sy'n cyfateb yn fras i'r hyn a roddir iddynt ar hyn o bryd. Rydym yn credu bod ein cynigion yn cyflawni hyn drwy sicrhau bod y gofyniad ar ddarparwyr i barhau i roi gwybodaeth i ddefnyddwyr sydd o natur debyg ac yn yr un ffordd ag y maent yn ei wneud ar hyn o bryd.
  - c) **maen nhw'n dryloyw**, gan fod y rhesymau dros y newidiadau rydym ni'n cynnig eu gwneud a'u heffaith yn cael eu hegluro yn y ddogfen hon.
- 4.17 Er nad yw'n un o ofynion y Ddeddf yng nghyd-destun Amod Cyffredinol, credwn hefyd fod modd cyfiawnhau'r newidiadau rydym wedi penderfynu eu gwneud yn wrthrychol oherwydd byddant yn sicrhau bod gan ddarparwyr eglurder ynghylch eu rhwymedigaethau o dan yr Amodau Cyffredinol o 1 Chwefror 2025 ymlaen, pan fydd y PSA yn peidio â bod yn gyfrifol am y PRS, a byddant yn sicrhau bod defnyddwyr yn cael gwybodaeth ar ôl 1 Chwefror 2025 sy'n cyfateb, i raddau helaeth, i'r wybodaeth a roddir iddynt ar hyn o bryd.
- 4.18 Rydym hefyd o'r farn bod ein penderfyniadau yn cyd-fynd â'n dyletswyddau cyffredinol a nodir yn adran 3 o'r Ddeddf a'r chwe gofyniad yn adran 4 o'r Ddeddf. Yn benodol, credwn fod cyflwyno'r Amod Cyffredinol arfaethedig yn cyd-fynd â'n rhwymedigaeth i sicrhau bod gweithgareddau rheoleiddio yn gymesur ac wedi'u targedu at achosion lle mae angen gweithredu yn unig (adran 3(3) o'r Ddeddf). Fel y nodwyd uchod, rydym wedi ceisio lleihau costau gweithredu i'r diwydiant gyda'r bwriad o sicrhau bod ein hymyriad arfaethedig yn gymesur drwy geisio gwneud cyn lleied o newidiadau â phosibl i'r Amodau Cyffredinol ar yr un pryd â sicrhau bod defnyddwyr yn gallu cael gafael ar wybodaeth sy'n cyfateb, i raddau helaeth, i'r hyn a roddir iddynt ar hyn o bryd. Wrth lunio a chwblhau ein cynigion, rydym hefyd wedi ystyried y Datganiad Blaenoriaethau Strategol.

## Cwestiynau'r ymgynghoriad

---

3. Ydych chi'n cytuno â'n hasesiad o effaith bosibl ein cynnig?
4. Ydych chi'n cytuno â'n hasesiad o'r effaith bosibl ar grwpiau penodol o bobl?
5. Ydych chi'n cytuno â'n hasesiad o effaith bosibl ein cynnig ar y Gymraeg?



# A1. Hysbysiad o addasiadau arfaethedig i Amod Cyffredinol C2 a diffiniadau'r Amodau Cyffredinol

## Hysbysiad o gynigion Ofcom i ddiwygio Amod Cyffredinol C2 a diffiniadau'r Amodau Cyffredinol o dan adrannau 48(1) a 48A(3) o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003

---

- A1.1 Mae Ofcom, yn unol ag adrannau 48(1) a 48A(3) o'r Ddeddf, drwy hyn yn gwneud y cynnig canlynol i addasu Amod Cyffredinol C2 a diffiniadau'r Amodau Cyffredinol.
- A1.2 Nodir yr addasiadau arfaethedig yn yr Atodlen i'r Hysbysiad hwn.
- A1.3 Mae rhesymau Ofcom dros wneud y cynnig ac effaith pob cynnig wedi'u nodi yn y ddogfen ymgynghori gysylltiedig.
- A1.4 Mae Ofcom o'r farn bod y cynnig yn cydymffurfio â gofynion adrannau 45 i 49C o'r Ddeddf, i'r graddau y maent yn berthnasol.
- A1.5 Wrth wneud y cynigion hyn, mae Ofcom wedi ystyried a gweithredu yn unol â'i ddyletswyddau cyffredinol o dan adran 3 o'r Ddeddf a'r chwe gofyniad a nodir yn adran 4 o'r Ddeddf. Mae Ofcom hefyd wedi ystyried y Datganiad Blaenoriaethau Strategol wrth wneud y cynnig y cyfeirir ato yn yr Hysbysiad hwn.
- A1.6 Gellir cyflwyno sylwadau i Ofcom am y cynnig a nodir yn yr Hysbysiad hwn erbyn 5pm ar 25 Tachwedd 2024.
- A1.7 Os cânt eu gweithredu, bydd yr addasiadau arfaethedig yn dod i rym ar 1 Chwefror 2025.
- A1.8 Anfonwyd copi o'r Hysbysiad hwn a'r ddogfen ymgynghori gysylltiedig at yr Ysgrifennydd Gwladol yn unol ag adran 48C(1) o'r Ddeddf.
- A1.9 Yn yr Hysbysiad hwn:
- a) Mae '**y Ddeddf**' yn golygu Ddeddf Cyfathrebiadau 2003;
  - b) Mae '**Amodau Hawliau Cyffredinol**' neu '**Amodau Cyffredinol**' yn golygu'r amodau cyffredinol a bennwyd gan Ofcom o dan adran 45 o'r Ddeddf ar 19 Medi 2017, fel y'u diwygiwyd o bryd i'w gilydd;
  - c) Mae '**Ofcom**' yn golygu'r Swyddfa Gyfathrebiadau;
  - d) Mae '**Datganiad Blaenoriaethau Strategol**' yn golygu'r Datganiad Blaenoriaethau Strategol ar gyfer telegyfathrebiadau, rheoli sbectrwm radio, a gwasanaethau post a ddynodwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Faterion Digidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon at ddibenion adran 2A o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003 ar 29 Hydref 2019.
- A1.10 Bydd i eiriau neu ymadroddion yr ystyr a roddir iddynt yn yr Hysbysiad hwn, ac fel arall bydd i unrhyw air neu ymadrodd yr un ystyr ag a roddir iddo yn y Ddeddf.

- A1.11 At ddibenion dehongli'r Hysbysiad hwn: (i) caiff penawdau a theitlau eu diystyru; a (ii) bydd Deddf Dehongli 1978 yn berthnasol fel pe bai'r Hysbysiad hwn yn Ddeddf Seneddol.
- A1.12 Bydd yr Atodlenni i'r Hysbysiad hwn yn rhan o'r Hysbysiad hwn.

Llofnodwyd gan Marina Gibbs

A rectangular box containing the handwritten signature "M. Gibbs" in black ink.

Cyfarwyddwr Polisi – Grŵp Rhwydweithiau a Chyfathrebiadau

Person a awdurdodwyd gan Ofcom o dan baragraff 18 yn yr Atodlen i Ddeddf y Swyddfa Gyfathrebiadau 2002

25 Hydref 2024

## Atodlen: Addasiadau arfaethedig i Amodau Hawliau Cyffredinol C2 a diffiniadau'r Amodau Cyffredinol

- A1.13 Dangosir isod yr addasiadau y mae Ofcom yn bwriadu eu gwneud i Amod Cyffredinol C2 a diffiniadau'r Amodau Cyffredinol yn erbyn fersiwn presennol yr Amod Cyffredinol. Bydd y testun sydd â llinell drwyddo yn cael ei ddileu a bydd y testun a danlinellir yn cael ei ychwanegu.

### Amod Cyffredinol C2

#### C2.11

Mewn perthynas â **Gwasanaethau Cyfradd Premiwm a Reolir ('CPRS')**, bydd **Darparwyr Rheoleiddiedig** yn rhoi'r wybodaeth a'r cyngor canlynol ar gais ac yn rhad ac am ddim i **Ddefnyddwyr, Cwsmeriaid Microfusnesau neu Fusnesau Bach neu Gwsmeriaid Dim-Er-Elw:**

- (a) gwybodaeth am ddulliau **CPRS** ym marchnad y DU, fel bilio gweithredwyr, taliadau **Gwasanaeth Negeseuon Byr** cyfradd premiwm (PSMS), **Taliadau Gwasanaeth** ar gyfer rhifau **CPRS**, a thaliadau cod byr llais, a sut maen nhw'n cael eu nodi ar fil ffôn y **Cwsmer**; a
- (b) gwybodaeth am rôl **Darparwyr Rheoleiddiedig** mewn perthynas â'r canlynol:
- (i) ymholiadau cyffredinol am **CPRS** a cheisiadau am wiriadau rhif drwy'r cyfleusterau gwirio rhifau a ddarperir gan yr **Awdurdod Gwasanaethau Talu dros y Ffôn** ar ei wefan;<sup>11</sup> a
- (ii) delio â chwynion ffurfiol am gamddefnyddio cynnwys gwasanaeth, diffyg cydymffurfio **ag unrhyw orchymyn a wneir gan Ofcom o dan Adran 122 o'r Ddeddf** â chod ymarfer yr **Awdurdod Gwasanaethau Talu dros y Ffôn** ac achosion anghyfreithlon honedig eraill o weithredu gwasanaethau a rhifau.

#### C2.12

Wrth roi gwybodaeth a chyngor yn unol ag **Amod** C2.11, bydd **Darparwyr Rheoleiddiedig** yn rhoi:

- (a) gwybodaeth sylfaenol am sut mae **CPRS** yn gweithio gan gynnwys a gafodd y gwasanaeth(au) dan sylw eu cyfeirio at ddarparwyr gwasanaeth sy'n cael eu lletya ar rwydwaith y **Darparwr Rheoleiddiedig** ei hun neu ar rwydwaith **Darparwr Cyfathrebiadau** gwahanol, ynghyd ag esboniad sylfaenol o sut mae rhannu referniw gyda darparwyr gwasanaeth yn gweithio;
- (b) gwybodaeth am y tariffau sy'n berthnasol ar eu rwydwaith ar gyfer galwadau i unrhyw ystod rhifau **CPRS**, gan gynnwys, lle bo hynny'n briodol, **Tâl Mynediad y Darparwr Rheoleiddiedig**;
- (c) manylion cyswllt darparwyr gwasanaethau unigol neu'r **Darparwyr Cyfathrebiadau** sy'n eu lletya, a lle mae'r wybodaeth honno ar gael<sup>12</sup>;

- (d) manylion cyswllt darparwyr gwasanaeth i gwsmeriaid lle gall **Defnyddwyr** gael rhagor o wybodaeth am wasanaethau a ddarperir ar y rhifau **CPRS** sydd ar eu **Biliau**;
- (e) gwybodaeth am rôl a chylch gwaith **Ofcom yr Awdurdod Gwasanaethau Talu dros y Ffôn** wrth ddelio â chwynion **mewn perthynas â CPRS** a sut mae mynd ati i gwyno'n ffurfiol wrth **Ofcom yr Awdurdod Gwasanaethau Talu dros y Ffôn** drwy'r wefan, y llinell gymorth neu'n ysgrifenedig;
- (f) gwybodaeth am rôl **Cynlluniau Dulliau Amgen o Ddatrys Anghydfod** wrth ddatrys anghydfodau ynghylch **CPRS**;
- (g) gwybodaeth am sut gall **Defnyddwyr** rwystro mynediad o'u ffôn i'r holl ystodau rhifau neu i rai ystodau rhifau **CPRS** penodol am resymau cost a/neu gynnwys; **a**
- (h) gwybodaeth am unrhyw opsiynau eraill sydd ar gael i **Ddefnyddwyr** ar gyfer ceisio ad-daliadau mewn achosion o gamddefnyddio neu sgamiau sy'n ymwneud â **CPRS**; **ac**
- (i) **gwybodaeth am sut gall Defnyddwyr gael gfael ar wybodaeth am rifau CPRS sydd ar eu Biliau, gan gynnwys lleoliad unrhyw gyfleusterau gwirio rhifau.**

**11 Gweler gwefan yr Awdurdod Gwasanaethau Talu dros y Ffôn**

**12 Er enghraifft, gallai'r wybodaeth fod ar gael ar wefan yr Awdurdod Gwasanaethau Talu dros y Ffôn.**

## Diffiniadau

**Mae 'Awdurdod Gwasanaethau Talu dros y Ffôn' yn golygu rheoleiddiwr y DU sy'n gyfrifol am gynnwys, nwyddau a gwasanaethau a godir ar fil ffôn**

# A2. Ymateb i'r ymgynghoriad hwn

## Sut mae ymateb

---

- A2.1 Byddai Ofcom yn hoffi i chi gyflwyno eich safbwyntiau a'ch sylwadau ynghylch y materion sydd wedi'u nodi yn y ddogfen hon erbyn 5pm ar 25 Tachwedd 2024.
- A2.2 Gallwch lawrlwytho ffurflen ymateb yn <https://www.ofcom.org.uk/siteassets/resources/documents/consultations/category-2-6-weeks/-271626-the-future-regulation-of-phone-paid-services/associated-documents/rheoleiddio-gwasanaethau-talu-dros-y-ffon-yn-y-dyfodol.pdf> . Gallwch ddychwelyd y ffurflen dros e-bost neu drwy'r post i'r cyfeiriad sydd ar y ffurflen ymateb.
- A2.3 Os bydd eich ymateb ar ffurf ffeil fawr, neu os bydd yn cynnwys siartiau, tablau neu fathau eraill o ddata ategol, gofynnwn i chi ei anfon drwy e-bost i [prsregulation@ofcom.org.uk](mailto:prsregulation@ofcom.org.uk), fel atodiad mewn fformat Microsoft Word, ynghyd â'r ddalen gyflwyno. At ddibenion yr ymgynghoriad hwn yn unig y mae'r cyfeiriad e-bost hwn, ac ni fydd yn ddilys ar ôl 25 Tachwedd 2024.
- A2.4 Fel arall, gellir postio ymatebion i'r cyfeiriad isod, gan nodi teitl yr ymgynghoriad arnynt:
- PRS Consultation Team  
Ofcom  
Riverside House  
2A Southwark Bridge Road  
London SE1 9HA
- A2.5 Mae croeso i chi gyflwyno ymatebion mewn fformatau eraill heblaw mewn print, er enghraifft recordiad sain neu fideo mewn iaith Arwyddion Prydain. I ymateb drwy ddefnyddio iaith Arwyddion Prydain:
- > anfonwch recordiad ohonoch chi'n defnyddio'r iaith arwyddion i gyfleu eich ymateb. Ni ddylai'r recordiad bara am fwy na 5 munud. Dyma'r fformatau ffeil addas: ffeiliau DVD, wmv neu QuickTime; neu
  - > gwnewch fideo ohonoch chi'n defnyddio'r iaith arwyddion i gyfleu'ch ymateb, a'i lwytho yn syth i YouTube (neu safle lletya arall), ac anfon y ddolen atom ni.
- A2.6 Byddwn yn cyhoeddi trawsgrifiad o unrhyw ymatebion sain neu fideo a gawn ni (oni bai fod eich ymateb yn gyfrinachol).
- A2.7 Nid oes angen i ni gael copi papur o'ch ymateb yn ogystal â fersiwn electronig. Byddwn yn cydnabod ein bod wedi derbyn ymateb a gyflwynir i ni dros e-bost.
- A2.8 Nid oes rhaid i chi ateb pob cwestiwn yn yr ymgynghoriad os nad oes gennych chi safbwynt; mae ymateb byr ar ddim ond un pwynt yn iawn. Rydym hefyd yn croesawu ymatebion ar y cyd.
- A2.9 Byddai'n ddefnyddiol pe gallai eich ymateb gynnwys atebion uniongyrchol i'r cwestiynau sy'n cael eu gofyn yn y ddogfen ymgynghori. Mae'r cwestiynau'n cael eu rhestru yn Atodiad 5. Byddai'n ddefnyddiol hefyd pe bai modd i chi esbonio pam rydych chi'n arddel eich safbwyntiau, a beth fyddai effaith cynigion Ofcom yn eich barn chi.
- A2.10 Os hoffech chi drafod y materion a'r cwestiynau sy'n codi yn yr ymgynghoriad hwn, anfonwch e-bost i [prsregulation@ofcom.org.uk](mailto:prsregulation@ofcom.org.uk).

## Cyfrinachedd

---

- A2.11 Mae ymgynghoriadau'n fwy effeithiol os ydym yn cyhoeddi'r ymatebion cyn i'r cyfnod ymgynghori ddod i ben. Gall hyn helpu pobl a sefydliadau sy'n brin eu hadnoddau neu sydd ddim yn gyfarwydd iawn â'r materion dan sylw i ymateb yn fwy gwybodus. Felly, er mwyn bod yn dryloyw a sicrhau ymarfer rheoleiddio da, ac oherwydd ein bod ni'n credu ei bod yn bwysig bod pawb sydd â diddordeb mewn mater yn gallu gweld safbwyntiau ymatebwyr eraill, fel rheol byddwn yn cyhoeddi ymatebion ar wefan Ofcom yn rheolaidd yn ystod y cyfnod ymgynghori ac ar ôl iddo ddod i ben.
- A2.12 Os ydych chi'n meddwl y dylid cadw eich ymateb yn gyfrinachol, a fydddech chi cystal â nodi i ba ran(nau) mae hyn yn berthnasol, ac egluro pam. Anfonwch unrhyw adrannau cyfrinachol fel atodiad ar wahân. Os ydych chi am i'ch enw, eich cyfeiriad, manylion cyswllt eraill, neu deitl eich swydd aros yn gyfrinachol, rhowch y manylion hynny ar y ddalen gyflwyno'n unig, fel na fydd rhaid i ni olygu eich ymateb.
- A2.13 Os bydd rhywun yn gofyn i ni gadw ymateb cyfan neu ran ohono'n gyfrinachol, byddwn yn trin y cais hwn o ddifri ac yn ceisio ei barchu. Ond weithiau bydd angen i ni gyhoeddi pob ymateb, gan gynnwys y rhai sydd wedi eu nodi'n rhai cyfrinachol, er mwyn bodloni rhwymedigaethau cyfreithiol.
- A2.14 Er mwyn cyflawni ein dyletswydd cyn datgelu, efallai y byddwn yn rhannu copi o'ch ymateb ag adran berthnasol yn y llywodraeth cyn i ni ei gyhoeddi ar ein gwefan.
- A2.15 Sylwch hefyd y cymerir bod yr hawlfraint a phob eiddo deallusol arall sydd mewn ymatebion wedi'u rhoi o dan drwydded i Ofcom eu defnyddio. Mae hawliau eiddo deallusol Ofcom yn cael eu hegluro ymhellach yn ein Telerau Defnyddio.

## Y camau nesaf

---

- A2.16 Ar ôl y cyfnod ymgynghori hwn, mae Ofcom yn bwriadu cyhoeddi datganiad ddechrau 2025.
- A2.17 Gallwch chi gofrestru i gael diweddariadau drwy'r post yn rhoi gwybod i chi am gyhoeddiadau newydd Ofcom os ydych yn dymuno hynny.

## Prosesau ymgynghori Ofcom

---

- A2.18 Mae Ofcom yn ceisio sicrhau ei bod mor hawdd â phosibl ymateb i ymgynghoriad. I gael rhagor o wybodaeth, cymerwch gip ar ein hegwyddorion ymgynghori yn Atodiad 3.
- A2.19 Os oes gennych chi unrhyw sylwadau neu awgrymiadau am y modd rydym yn rheoli ein hymgynghoriadau, anfonwch neges e-bost atom yn [consult@ofcom.org.uk](mailto:consult@ofcom.org.uk). Rydym wrth ein bodd o gael syniadau ynghylch sut gallai Ofcom ofyn yn fwy effeithiol am farn grwpiau neu unigolion, fel busnesau bach a defnyddwyr preswyl, sy'n llai tebygol o roi eu barn drwy ymgynghoriad ffurfiol.
- A2.20 Os hoffech drafod y materion hyn, neu brosesau ymgynghori Ofcom yn fwy cyffredinol, cysylltwch ag ysgrifennydd y gorfforaeth:

Corporation Secretary  
Ofcom  
Riverside House

2a Southwark Bridge Road  
London SE1 9HA  
E-bost: [corporationsecretary@ofcom.org.uk](mailto:corporationsecretary@ofcom.org.uk)

# A3. Egwyddorion ymgynghori Ofcom

Mae Ofcom yn dilyn saith egwyddor ar gyfer pob ymgynghoriad ysgrifenedig cyhoeddus:

## Cyn yr ymgynghoriad

---

A3.1 Os oes modd, byddwn yn cynnal sgysiau anffurfiol gyda phobl a sefydliadau cyn cyhoeddi ymgynghoriad mawr i gael gwybod a ydym ar y trywydd iawn. Os nad oes gennym ddigon o amser i wneud hyn, byddwn yn cynnal cyfarfod agored i egluro ein cynigion yn fuan ar ôl cyhoeddi'r ymgynghoriad.

## Yn ystod yr ymgynghoriad

---

A3.2 Byddwn yn glir ynghylch pwy rydym ni'n ymgynghori â nhw, pam, ar ba gwestiynau ac am ba hyd.

A3.3 Byddwn yn gwneud y ddogfen ymgynghori'n un mor fyr ac mor syml ag y bo modd gyda throsolwg o ddim mwy na dwy dudalen. Byddwn yn ceisio ei gwneud mor hawdd â phosibl i bobl roi ymateb ysgrifenedig i ni.

A3.4 Byddwn yn ymgynghori am gyfnod o hyd at ddeg wythnos yn dibynnu ar effaith bosibl ein cynigion.

A3.5 Bydd rhywun yn Ofcom yn gyfrifol am sicrhau ein bod yn dilyn ein canllawiau ein hunain ac yn ceisio cyrraedd y nifer fwyaf o bobl a sefydliadau sydd â diddordeb o bosibl yng nghanlyniad ein penderfyniadau. Hyrwyddwr Ymgynghori Ofcom fydd y prif bwynt cyswllt os oes gennych chi farn am y modd rydym yn cynnal ein hymgyngoriadau.

A3.6 Os na fyddwn yn gallu dilyn unrhyw un o'r saith egwyddor hyn, byddwn yn egluro pam.

## Ar ôl yr ymgynghoriad

---

A3.7 Credwn ei bod yn bwysig bod pawb sydd â diddordeb mewn mater yn gallu gweld safbwyntiau pobl eraill. Felly, fel rheol, byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn rheolaidd yn ystod y cyfnod ymgynghori ac ar ôl iddo ddod i ben. Ar ôl yr ymgynghoriad, byddwn yn gwneud ein penderfyniadau ac yn cyhoeddi datganiad sy'n egluro beth fyddwn ni'n ei wneud, a pham, gan ddangos sut mae safbwyntiau ymatebwyr wedi helpu i lywio'r penderfyniadau hyn.



# A4. Dalen gyflwyno'r ymgynghoriad

## Manylion sylfaenol

---

Teitl yr ymgynghoriad:

At (swyddog cyswllt yn Ofcom):

Enw'r ymatebydd:

Yn cynrychioli (eich hun neu sefydliad(au)):

Cyfeiriad (os na ddaeth i law drwy e-bost):

## Cyfrinachedd

---

Ticiwch isod i ddangos pa ran o'ch ymateb rydych chi'n ei hystyried yn gyfrinachol, a rhowch eich rhesymau dros hynny

- > Dim
- > Enw/manylion cyswllt/teitl swydd
- > Ymateb cyfan
- > Sefydliad
- > Rhan o'r ymateb

Os ydych chi wedi dewis 'Rhan o'r ymateb', nodwch pa rannau:

-----  
-----

Os ydych chi am i ran o'ch ymateb, eich enw neu'ch sefydliad beidio â chael eu cyhoeddi, ydych chi'n fodlon i Ofcom gyhoeddi cyfeiriad at gynnwys eich ymateb (gan gynnwys, yn achos unrhyw rannau cyfrinachol, grynodedd cyffredinol na fydd yn datgelu'r wybodaeth benodol nac yn datgelu pwy ydych chi)?

Ydw       Nac ydw

## Datganiad

---

Rwy'n cadarnhau bod yr ohebiaeth sydd wedi'i rhoi gyda'r ddalen gyflwyno hon yn ymateb ffurfiol i'r ymgynghoriad y gall Ofcom ei gyhoeddi. Fodd bynnag, wrth ddarparu'r ymateb hwn, rwy'n deall ei bod yn bosibl y bydd angen i Ofcom gyhoeddi'r holl ymatebion, gan gynnwys y rheini sydd wedi'u nodi'n gyfrinachol, er mwyn cyflawni rhwymedigaethau cyfreithiol. Os ydw i wedi anfon fy ymateb drwy neges e-bost, gall Ofcom ddiystyru unrhyw destun e-bost safonol ynglŷn â pheidio â datgelu cynnwys ac atodiadau'r neges e-bost.

Mae Ofcom yn bwriadu cyhoeddi ymatebion yn rheolaidd yn ystod y cyfnod ymgynghori ac ar ôl iddo ddod i ben. Os yw eich ymateb yn un nad yw'n gyfrinachol (yn gyfan gwbl neu'n rhannol), ac y byddai'n well gennych i ni beidio â chyhoeddi'ch ymateb nes bydd yr ymgynghoriad wedi dod i ben, ticiwch yma.

Enw      Llofnod (os darperir copi caled)

# A5. Cwestiynau'r ymgynghoriad

A5.1 Mae'r rhestr gyfan o gwestiynau'r ymgynghoriad wedi'u nodi isod.

1. Ydych chi'n cytuno bod angen diwygio'r Amodau Cyffredinol ac ydych chi'n cytuno â'n hamcan wrth wneud y diwygiadau hynny?
2. Ydych chi'n cytuno â'r addasiadau arfaethedig i Amodau Cyffredinol C2.11 ac C2.12 ac â'n cynnig i ddileu'r diffiniad o 'Awdurdod Gwasanaethau Talu dros y Ffôn' o'r Amodau Cyffredinol?
3. Ydych chi'n cytuno â'n hasesiad o effaith bosibl ein cynnig?
4. Ydych chi'n cytuno â'n hasesiad o'r effaith bosibl ar grwpiau penodol o bobl?
5. Ydych chi'n cytuno â'n hasesiad o effaith bosibl ein cynnig ar y Gymraeg?